

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)      David Andrew Parry      Greta Hughes      Alaw Ceris  
Gwenllian Davenport      Ian Goronwy Williams      Thomas Victor Jones      Pat Humphreys (Clerc)  
Hughes

## **Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

Gan fod Alan Harper-Smith wedi ymddiheuro nid oes cyfieithydd yn bresennol a gan nad oedd y cyfieithydd wedi troi gwaith i lawr i ddod i gyfieithu i ni nid yw am godi tâl arnom am heno. Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

### **1. Ymddiheuriadau**

William Roger Jones, Alan Harper-Smith, William Penri Jones, Claire Russell-Griffiths.

### **2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim.

### **3. Cofnodion Pwyllgor 28/06/2021**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry      Eilio: Ian Goronwy Williams

### **4. Unrhyw Fater Brys**

#### **Llythyr Ysgol Llanbedrog – Cynrychiolydd ar y Corff Llywodraethol**

Derbyniwyd llythyr gan Ysgol Llanbedrog yn gofyn am gynrychiolydd gan Cyngor Cymuned Llanbedrog ar Corff Llywodraethwyr yr Ysgol. Mae tymor y Cynghorydd Greta Hughes wedi dod i ben ac mae angen penodi cynrychiolydd arall am y tymor nesaf sef cyfnod o bedair blynedd. Maent yn gofyn am gynrychiolydd sydd gyda amser ac ymroddiad i lês yr Ysgol â'r plant ac mae angen iddo/iddi gael cofnod DBS wedi ei gwblhau cyn y cyfarfod cyntaf sydd ar y 21<sup>ain</sup> o Fedi 2021. Datgannodd Greta Hughes nad oedd ganddi yr amser i fynychu'r cyfarfodydd ddim mwy ac felly y dylid penodi cynrychiolydd arall. Cynnigiodd David Andrew Parry, Gwenllian Davenport Hughes fel cynrychiolydd ac eiliwyd y cynnig gan Thomas Victor Jones.

Penderfyniad: cytunodd Gwenllian Davenport Hughes i fod yn gynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanbedrog ar Corff Llywodraethwyr Ysgol Llanbedrog, cafwyd pleidlais o 5 o blaid ac un yn ymatal rhag pleidleisio. Diolchodd yr aelodau i Gwenllian Davenport Hughes am dderbyn y swydd.

Cynnig: David Andrew Parry      Eilio: Thomas Victor Jones

### **5. Dyddiad Pwyllgor mis Medi**

Mae'r clerch i ffwrdd ar wyliau o'r 20<sup>fed</sup> i'r 27<sup>ain</sup> o Fedi, nid oedd y clerch yn y swydd Clerch Cyngor Cymuned Llanbedrog pan drefnwyd y gwyliau yma ac felly nid yw ar gael ar y 27<sup>ain</sup> o Fedi sef dyddiad y pwyllgor.

Penderfyniad: Pasiwyd i gynnal cyfarfod mis Medi ar y 13<sup>eg</sup> o Fedi.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: David Andrew Parry

Soniwyd yng nghyfarfod y mis diwethaf y byddai modd cynnal cyfarfod mis Medi yn y neuadd ac fe gysylltodd y clerc gyda'r cyfieithydd i weld beth oedd ei thelerau ynglŷn â mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb. Oherwydd costau teithio, costau cyfieithu ar y pryd ac amser teithio a llogi offer cyfieithu (am bris gostyngol) mae'r gost i gyfieithu yn y neuadd yn £165.00 ond oherwydd ei bod yn cyfieithu i ni yn fisol mae hi'n cynnig ffi sefydlog o £140.00. Mae hi hefyd yn datgan nad yw'n awyddus i fynd allan o'i chartref i gyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd yn enwedig dros fisoedd y gaeaf. Awgrymodd David Andrew Parry y byddai modd cyfarfod yn y prif neuadd yn hytrach na'r ystafell llai arferol a cytunodd y cadeirydd, a cynnigodd y cadeirydd y byddai'n syniad da cael wifi yn y neuadd fel bod y cyfieithydd ddim yn gorfod mynychu'r cyfarfodydd a dal i gyfieithu o adref. Yr unig broblem hefo cael wifi yn y neuadd ydi nad oes gan y neuadd gôd post ac i gael wifi mae angen côd post ac awgrymodd Greta Hughes pam na chawn ni fynd ar yr un côd post ar tai o amgylch y neuadd gan fod angen wifi yn y neuadd. Mynegodd Alaw Ceris y byddai'n fuddsoddiad da i'r neuadd ac yn ychwanegu at beth y mae'r neuadd yn ei gynnis.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol bod y clerc i gysylltu hefo'r swyddfa bost i ofyn am gôd post ar gyfer y neuadd ac unwaith y bydd wedi cael un mynd ymlaen i drefnu wifi ar gyfer y neuadd a defnyddio BT. Y cadeirydd i anfon rhestr codau post y tai o amgylch y neuadd i'r clerc.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

Pasiwyd hefyd yn unfrydol, gan fod hyn i gyd yn mynd i gymeryd amser i'w sortio allan, i gynnal cyfarfod mis Medi ar zoom.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Thomas Victor Jones

## 6. Torri gwellt o amgylch y pentref

Yn dilyn pwyllgor mis diwethaf fe gysylltodd y clerc hefo Pozzi i ofyn wrtho am dorri'r llecyn o flaen yr ysgol, ychydig o wythnosau yn ddiweddarach cafodd y clerc wybod gan y cadeirydd nad oedd Pozzi wedi torri'r llecyn felly fe wnaeth y clerc ei ffonio eto ac mae'r llecyn wedi cael ei dorri erbyn hyn ond nid yw safon y gwaith ddigon da ac mae Thomas Victor Jones yn cytuno ei fod yn fler iawn. Yn ychwanegol i hyn mae o gwmpas y potiau blodau â'r hysbysfwrdd drost y ffordd a Llest angen ei dacluso ac hefyd o flaen yr ysgol a symud yr hysbysfwrdd o flaen yr ysgol at y fainc er mwyn i bobol gael ei weld yn well. Mae amryw o lecynnau o gwmpas y pentref angen eu torri e.e. dros y ffordd i Spar o amgylch y fainc â'r potiau blodau ac wrth ymyl Glyn y Weddw. Mynegodd Ian Goronwy Williams fod brigau coed wedi tyfu drosodd i'r lôn drost y ffordd i Llest hefyd ac yn ei gwneud yn anodd iawn i gerdded ar y palmant. Gan fod Cyngor Gwynedd ddim wedi bod yn torri'r llecynnau yma efallai y buasi'n syniad i'r Cyngor Cymuned drefnu eu torri yn lle bod y pentref yn edrych yn fler. Mae angen gwneud y gwaith yma rwan oherwydd ei fod yn adlewyrchu'n ddrwg ar y pentref. Nid yw'r cadeirydd yn hapus o gwbwl hefo Stuart Livingstone oherwydd ar ôl ei gyfarfod tua mis yn ôl nid yw wedi gwneud dim o'r gwaith a restrwyd iddo yn y cyfarfod er ei fod wedi gaddo gorffen y gwaith i gyd erbyn y 12<sup>fed</sup> o Orffennaf felly nid oes pwynt rhoi dim mwy o waith iddo. Mae'r cadeirydd am anfon ebost iddo heno yn dweud oherwydd fod y gwaith heb gael ei wneud bydd y Cyngor yn chwilio am rhywun arall i wneud y gwaith. Fe fydd rhaid cael hyd i rhywun arall wneud y gwaith yma oherwydd fod rhestr faith o amryw bethau sydd angen eu gwneud ar frys o gwmpas y pentref felly y clerc i roi

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

hysbysiad ar gweplyfr am weithiwr achlysurol ar ôl i'r cadeirydd yrru ebost i Stuart Livingstone. Mae David Andrew Parry am fynd at y llecyn drost y ffordd i Llest i dacluso o gwmpas y potiau ac i drwsio'r hysbysfwrdd.

### **7. Cyflwr gwael Lôn Bribwll**

Derbyniwyd cwyn gan Thomas Victor Jones am gyflwr gwael Lôn Bribwll a bod angen cysylltu ar frys gyda Cyngor Gwynedd i'w thrwsio. Ategodd Alaw Ceris fod y Lôn fel hyn ers deg mlynedd ac mae hi wedi bod yn ffonio Dwr Cymru i ddod i drwsio pibellau dwr sydd wedi byrstio a Cyngor Gwynedd i ddod i drwsio'r lôn sawl gwaith ar hyd y blynyddoedd felly mae angen ei thrwsio yn iawn unwaith ac am byth. Mae angen pwyntio allan fod y Lôn yma yn 60mya felly efallai fod hyn yn ychwanegu at gyflwr y lôn.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ail wynebu Lôn Bribwll a pwysleisio ei bod yn berygl i bobol gerdded arni. Y darn sydd angen ei ail wynebu yw o Castell Grug i Tremfan.

### **8. Diffyg ymateb a Chyfathrebu Cyngor Gwynedd – Cyngor Cymuned Llandygai**

Derbyniwyd ebost gan Cyngor Cymuned Llandygai ynglŷn â diffyg ymateb a chyfarthrebu Cyngor Gwynedd. Maent yn awyddus iawn i drefnu cyfarfod hefo Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod eu pryderon a'u bod yn siomedig iawn yn safon y gwasanaeth y mae Cyngor Gwynedd yn ei ddarparu. Maent wedi estyn allan at gynghorau cymuned/tref eraill o fewn Wunedd i weld os ydynt hwy hefyd yn cael yr un broblem ac hefo diddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath. Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Cyngor Cymuned Llandygai i ddatgan ein cefnogaeth gan fod safon y gwasanaeth mae Cyngor Cymuned Llanbedrog yn ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn siomedig iawn.

### **9. Sefyllfa Parcio a diffyg llinellau melyn dwbl ger mynedfa Cysgod y Cwmwd.**

Derbyniodd y cadeirydd luniau gan David Andrew Parry o fynedfa Ystad Cysgod y Cwmwd yn dangos ceir yn parcio ar y ddwy ochor ac yn ei gwneud yn amhosibl dod allan i'r lôn mewn ffordd saff. Mae hon yn ystad o dai i deuluoedd gyda plant yn chwarae yno felly mae angen rhoi llinellau melyn dwbl ar y ddwy ochor i rwystro'r ceir rhag parcio yno. Mae'r heddlu wedi cytuno rhoi cefnogaeth i gais am llinellau melyn dwbl felly mae angen trefnu cyfarfod rhwng aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog, cynrychiolydd o adran briffydd Cyngor Gwynedd, yr heddlu â'r cynghorydd lleol ar y safle cyn gynted a bo'r modd. Cafwyd cais gan Alaw Ceris hefyd am linellau melyn dwbl o flaen yr ysgol oherwydd bod sefyllfa tebyg yn y fan honno hefyd gyda ceir a faniau yn parcio bob ochor i fynedfa'r ysgol ar y palmant. Mae Cyngor Gwynedd wedi pasio i roi llinellau melyn dwbl o flaen yr ysgol tua 2 flynedd yn ôl ond nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud hyd yn hyn felly mae angen mynd ar ôl hyn. Mynegodd Ian Goronwy Williams hefyd y dylid cael trafodaeth ar safle Crugan gan y bydd damwain siwr o ddigwydd yn y fan honno hefyd hefo ceir yn troi mewn ac allan o'r safle o ffordd brysur iawn.

Penderfyniad: y clerc i drefnu cyfarfod hefo cynrychiolydd o'r Adran Briffydd Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, aelodau Cyngor Cymuned Llanedrog â'r Cynghorydd Lleol yn fynedfa Ystad Cysgod y Cwmwd i ddechrau ac yna symud ymlaen i'r ddau leoliad arall.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

## 10. Llwybrau

Fe fydd rhaid edrych ar y cytundeb torri llwybrau erbyn y flwyddyn nesaf er mwyn iddynt gael eu torri yn amlach gan fod tyfiant ofnadwy ar y llwybrau yma a rhai ohonynt wedi cau. Mae cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â llwybr o Castell Grug i Cefn Penarwel ac i lawr yn ôl i lôn Crugan sydd wedi cau yn gyfangwbl felly mae angen cysylltu hefo Pozzi i ddweud wrtho. Mae'r cadeirydd am gael rhif y llwybr i'r clerc.

## 11. Y Fynwent

Cafwyd diweddariad gan y clerc ynglŷn â cyfrif Nat West. Y mis diwethaf cafwyd cais gan Greta Hughes i'r clerc holi Nat West os oedd modd agor cyfrif lle nad oedd angen symudiad i'r arian ond yn anffodus na oedd yr ateb, oherwydd ein bod angen cyfrif busnes nid oes cyfrif o'r math ar gael dim ond rhai personol.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i'r clerc i agor cyfrif cyfredol yn Nat West i fedru symud yr arian o'r cyfrif cynilo i dalu am waith cynnal a chadw yn y fynwent.

Cynnig: David Andrew parry      Eilio: Thomas Victor Jones

Mae'r clerc wedi cael dogfennau gan Elin Tudur ynglŷn â newid enw'r 'trustees' a oedd angen llofnod y cadeirydd, mae hynny wedi cael ei wneud a'r dogfennau wedi eu dychwelyd i Elin Tudur. Yr unig beth mae hi yn bwysleisio yw fod Swyddfa Gofrestr Tir ar y funud yn araf iawn gan eu bod yn dal i fyny hefo gwaith ond mae hi wedi anfon y dogfennau iddynt.

Cafwyd diweddariad gan y clerc am y gwaith mae Victor Price yn ei wneud sef rhoi y biniau gwyrdd a brown allan ar y dyddiau casglu, chwynu a gofalu am y rhan o'r fynwent o'r lôn fawr at y fynedfa i'r fynwent lle mae ceir yn gallu parcio a plannu blodau yn y potyn blodau tu allan i fynedfa'r fynwent a gofalu amdano.

Gofynnodd Greta Hughes i'r clerc edrych i mewn i agor cyfrif cynilo yn Lloyds ar gyfer arian angladdau fel ein bod yn gallu rhoi arian wrth gefn i wneud y fynwent newydd a cytunodd yr aelodau i gyd.

## 12. Cae Chwarae

Wrth fynd at y biniau fe sylwodd David Andrew Parry bod y ffens i'r chwith o'r giat dal heb gael ei thrwsio a'r postiau wedi disgyn ac mae o wedi cael llond bod ar aros am Stuart Livingstone i wneud y gwaith felly mae o wedi cynnig ei drwsio ei hun.

Diolchodd y cadeirydd i William Roger Jones am gyfarfod yr archwilydd Wicksteed yn y cae chwarae, 'rydym wedi derbyn adroddiad ganddynt ac mae dau beth wedi ei godi ganddynt:

1. Tynnu seddi swings y plant hŷn oherwydd fod y cadwynau wedi gwisgo mwy na 40% a'r seddi mewn cyflwr drwg iawn,
2. Mae angen torri ychydig o dan y 'roundabout' oherwydd mae'n rhaid cael 4/5" yn glir o dan y 'roundabout' rhag ofn i blentyn roi ei droed yna.

Dywedodd David Andrew Parry ei fod yn fodlon tyllu o dan y 'roundabout' i'w wneud yn saff eto ac addawodd y cadeirydd anfon copi o'r adroddiad iddo.

Fe aeth y cadeirydd hefo Rhys Jones sy'n torri'r cae chwarae i weld y 'Japanese Knotweed' ond yn anffodus oherwydd nad oedd ganddo drwydded i'w drin nid oedd yn gallu gwneud dim byd yn ei gylch. Fe gysylltodd y clerc hefo Dylan Ty'n Lôn, a gofyn iddo gysylltu hefo'r cadeirydd i fynd

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

i'w weld ond yn anffodus nid yw wedi cysylltu hefo'r cadeirydd felly fe addawodd y clerc i'w ffonio eto.

O flaen y cae chwarae mae sribyn o wellt sydd wedi tyfu'n wyllt ac yn fler iawn, mae'r clerc wedi cwyno amdano y mis diwethaf i Cyngor Gwynedd ond nid ydynt wedi bod yn ei dorri.

**13. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch  
Dim.

### **14. Neuadd y Pentref**

Tydi'r clerc ddim wedi clywed dim gan Ieuan Ellis Owen wedi iddo addo gwneud rhestr o'r gweithredoedd.

Mae'r cadeirydd wedi gofyn i Stuart Livingstone drwsio'r hysbysfyddau ond nid yw wedi gwneud.

Gofynnodd Alaw Ceris os yw arian Neuadd y Pentref ar wahan i cyfrif Cyngor Cymuned Llanbedrog a dywedodd y cadeirydd fod cyfrif ar wahan i Neuadd y Pentref oherwydd ers dalwm 'roedd pwyllgor Neuadd y Pentref yn bodoli hefo cynrychiolydd o bob mudiad oedd yn defnyddio'r neuadd ar y pwyllgor ac mae sôn y byddai'n syniad da ffurfio pwyllgor arall i Neuadd y Pentref. Y cynghorwyr sydd ar y Cyngor Cymuned yw 'trustees' Neuadd y Pentref ac rwan dim ond Cylch Meithrin Llanbedrog a'r Clwb Snwcer sydd yn ei defnyddio. Mae'r clerc wedi diweddarau'r wybodaeth ar wefan 'Charities Commission' am y flwyddyn 2020-2021. Tydi'r clerc ddim wedi derbyn y wybodaeth am y cyfrif snwcer hyd yn hyn ac mae'r cadeirydd am gysylltu hefo Keith i ddweud wrtho am gysylltu hefo'r clerc.

Gofynnodd y cadeirydd i'r clerc gysylltu hefo Manweb i newid cyfeiriad sydd ganddynt ar gyfer gyrru sieciau ad-daliad y polion i'r Cyngor Cymuned i gyfeiriad y clerc.

### **Taliadau wedi eu Cymeradwyo**

<b>Cyflog y Clerc</b> – Pat Humphreys	<b>£366.53</b>
<b>Ann Llwyd</b> – Cyfieithydd	<b>£170.00</b>
<b>Ashley Hughes</b> – stampiau dosbarth cyntaf	<b>£10.20</b>
<b>Victor Price</b> – Chwyn laddwr	<b>£11.99</b>
<b>Wicksteed</b> – Archwiliad Cae Chwarae	<b>£103.20</b>
<b>Ffi Diogelu Data</b>	<b>£40.00</b>

### **Taliadau wedi eu Derbynnu**

<b>Ad-daliad</b> cyfraniad Capel Bethania Pistyll	<b>£100.00</b>
<b>Dylan Lloyd Griffith</b> – <b>Angladd John</b>	
<b>Richard Peake</b>	<b>£145.00</b>
<b>Ad-daliad</b> Manweb	<b>£17.85</b>

### **Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0452/38/LL** – Woodcroft, Llanbedrog – Dymchwel byngalo presennol ac adeiladu annedd newydd gan gynnwys anecs.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 26/07/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

**Penderfyniad:** Gwrthod – gor-ddatblygiad o'r safle, pryder ynglŷn â system carthffosiaeth anaddas, ffordd anaddas i'r tai, yr ymgeisydd wedi mynd yn groes i argymhelliad yr adran gynllunio yn y 'pre-application advice service' ac wedi anwybyddu'r cyngor yn llwyr, pryder gan drigolion cyfagos ynglŷn â'r datblygiad a dim gwahaniaeth yn y cynlluniau diwygiedig a'r cynlluniau gwreiddiol.

**C21/0335/38/DT** – 29 Glyn y Mor, Llanbedrog – Estyniadau ac addasiadau.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

### Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

### Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol

Cafwydd diweddariad gan y clerc ei bod wedi anfon archwiliad 2020-2021 ymlaen i'r BDO ac maent wedi dweud os oes gan y Cyngor Cymuned archwiliadau anghyflawn ar gyfer blynyddoedd blaenorol y byddent yn cael eu cwblhau ochor yn ochor gyda archwiliad 2020-2021 erbyn 31<sup>ain</sup> Rhagfyr 2021.

Gofynnodd Thomas Victor Jones i'r clerc gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i dorri'r llwybr 'toriad tân' 'fire break' ar Mynydd Tir Cwmwd oherwydd nad yw wedi cael ei dorri ers rhai blynyddoedd bellach.

Os oes materion brys cyn pwyllgor mis Medi yna pawb i gysylltu drwy ebost.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.40y.h